**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mehefin 2013**

## "PROSIECT GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU 2013" LLYWODRAETH CYMRU

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am fodolaeth "Prosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013" Llywodraeth Cymru, a cheisio cael yr Awdurdod i gefnogi bod swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymryd rhan yn y gweithgorau cysylltiedig.

## Cefndir

2 Mewn cyfarfod gyda Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr – yr Is-adran Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, ar 21 Mai 2013, cafodd y tri Phrif Swyddog Tân yng Nghymru wybod yn ffurfiol am ddyfodiad "Prosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013". Mae copi o'r llythyr ynglŷn â sefydlu'r prosiect yn Atodiad 1. Roedd y cylch gorchwyl i gael ei drafod a'i gwblhau'n derfynol mewn cyfarfod o weithgor y prosiect ar 10 Mehefin 2013. Gofynnwyd i'r Prif Swyddogion Tân wneud enwebiadau i weithgor y prosiect cyn gynted ag y bo modd. Oherwydd arwyddocâd posibl canlyniad y prosiect hwn, mae'r tri Phrif Swyddog Tân wedi penderfynu mai hwy yn bersonol fydd yn mynychu cyfarfodydd y gweithgor.

**Gwybodaeth**

3 Mae cefnogi'r prosiect, yn ogystal â'r gwaith y cyfeirir ati ym mharagraff 4 isod, yn debygol o roi straen ar allu'r Gwasanaeth yn y Gogledd. Er hynny, mae'r Prif Swyddog Tân o'r farn y dylai'r Awdurdod gymryd rhan lawn gan fod y prosiect yn debygol o fod â goblygiadau pwysig ar gyfer y dyfodol.

4 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (cyfeiria adroddiadau blaenorol gan yr Awdurdod ato), ac o'r ymarferiad casglu data tân ac achub a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2012. Hefyd, bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus, dan arweiniad Syr Paul Williams, yn cychwyn ar ei waith cyn bo hir. Cadarnhawyd y daw'r gwasanaethau tân ac achub o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn. Nid yw'n eglur eto pa gysylltiadau, os o gwbl, fydd gan y prosiect â gwaith y Comisiwn.

5 Bydd yr Aelodau hefyd dymuno bod yn ymwybodol fod "Facing the Future: Findings from the review of efficiencies and operations in fire and rescue authorities in England" wedi ei gyhoeddi ym mis Mai eleni. Dyma adroddiad gan Syr Ken Knight, y cyn-Brif Ymgynghorydd Tân ac Achub yn Lloegr, sydd wedi gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â mesurau effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn Lloegr. Gellir cael yr adroddiad ar:-https://www.gov.uk/government/publications/facing-the-future

**Argymhelliad**

6 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad, ac yn cefnogi bod swyddogion ac adnoddau eraill y Gwasanaeth yn cymryd rhan yn y "Prosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013".